Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

# Stryd Fawr Prestatyn Gwella'r Parth Cyhoeddus

# Adroddiad Cryno ynglŷn â'r Ymatebion

**Mai 2025**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

**Gwella'r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn**

## Cynnwys

Pwrpas yr adroddiad hwn ....3

Dadansoddi'r ymatebion a gafwyd ....3

Ymweliadau â'r safle ....3

Data meintiol ....4

Data ansoddol ....11

Y Camau Nesaf ....14

## Gwella'r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn

## Pwrpas yr adroddiad hwn

Pwrpas yr adroddiad hwn yw crynhoi'r sylwadau hynny a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad diweddar ynghylch cynllun Gwella Parth Cyhoeddus Stryd Fawr Prestatyn, sy'n rhan o'r prosiectau Balchder Bro a'r Amgylchedd Naturiol a ariennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Ni fydd yr adroddiad ei hun yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch y cynigion cyffredinol ond caiff safbwyntiau budd-ddeiliaid a chymuned ehangach Prestatyn eu hystyried wrth lunio cysyniadau cychwynnol ar gyfer dyluniad y cynllun.

## Dadansoddi'r ymatebion a gafwyd

Rhannodd y cyngor arolwg yr ymgynghoriad ar-lein; roedd copïau papur ar gael yn Llyfrgell Prestatyn ac anfonwyd posteri i fusnesau ym Mhrestatyn a Gallt Melyd i'w harddangos er mwyn hyrwyddo'r arolwg mor helaeth â phosib.  Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 14 Ebrill 2025 ac 11 Mai 2025 a derbyniwyd 244 o ymatebion drwy we-dudalen Ymgynghoriadau Sir Ddinbych ac ar bapur, ond dylid nodi na wnaeth yr holl ymatebwyr ateb pob un o'r cwestiynau.

## Ymweliadau â'r safle

Trefnwyd ymweliadau â'r safle ar gyfer Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Tref Prestatyn, pobl leol, ymwelwyr a busnesau fel y gallant gwrdd â Thîm y Prosiect a rhannu eu syniadau ynglŷn â'r hyn y gellid ei wella drwy'r cynllun.  Hysbysebwyd y sesiynau hynny ar dudalennau Sir Ddinbych ar gyfryngau cymdeithasol a'r wefan gorfforaethol.

Daeth 7 o Aelodau Etholedig/Cynghorwyr Tref, 11 o bobl leol/ymwelwyr a 4 o fusnesau i'r sesiynau hyn.

## Gwella’r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn
## Data meintiol

Casglwyd data i’n helpu i ddeall pwy gymerodd ran yn yr ymgynghoriad a’u cysylltiad â Phrestatyn.

| Pa rai o'r canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi? | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran (%) yr Ymatebwyr** |
| Rwy’n byw a gweithio ym Mhrestatyn | **122** | **50** |
| Rwy’n byw ym Mhrestatyn ond yn gweithio’n rhywle arall | **60** | **24.5** |
| Rwy’n gweithio ym Mhrestatyn ond yn byw’n rhywle arall | **1** | **0.5** |
| Rwy’n byw mewn pentref lleol (er enghraifft, Gallt Melyd, Dyserth, Gronant) a Phrestatyn yw’r brif dref imi siopa, mynd i’r feddygfa a defnyddio cyfleusterau eraill | **24** | **10** |
| Rwy’n ymweld â Phrestatyn o rywle arall yn Sir Ddinbych | **4** | **2** |
| Rydw i’n ymweld â Phrestatyn o rywle arall (y tu hwnt i Sir Ddinbych) | **8** | **3** |
| Rwy’n Gynghorydd Sir yn Sir Ddinbych, yn Aelod o Gyngor Dinas, Tref neu Gymuned, yn Aelod o’r Senedd neu’n Aelod o Senedd y Deyrnas Unedig | **3** | **1** |
| Arall | **19** | **9** |
| - Byw yma, ddim yn gweithio/wedi ymddeol<br>- Perchennog busnes wedi ymddeol<br>- Byw a siopa yma | | |

## Gwella'r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn

Mae mwy na 200 o'r ymatebwyr yn byw ym Mhrestatyn, yn ôl y rhai a ddewisodd:

- Rwy'n byw a gweithio ym Mhrestatyn
- Rwy'n byw ym Mhrestatyn ond yn gweithio'n rhywle arall
- Arall

Casglwyd data i'n helpu i ddeall yr hyn y mae'r cyfranogwyr yn dueddol o'i wneud wrth ymweld â Stryd Fawr Prestatyn a chanol y dref.

| **Pa mor aml ydych chi'n ymweld â chanol tref Prestatyn?** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran (%) yr Ymatebwyr** |
| Bob dydd | **94** | **39** |
| O leiaf unwaith yr wythnos | **136** | **56** |
| O leiaf unwaith y mis | **6** | **2** |
| Llai aml na hynny | **8** | **3** |
| Nid wyf byth yn ymweld â chanol tref Prestatyn | **0** | **0** |

| **Pan fyddwch yn ymweld â chanol tref Prestatyn, am faint fyddwch chi'n aros?** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran (%) yr Ymatebwyr** |
| 0 – 1 awr | **57** | **23** |
| 1 – 2 awr | **118** | **49** |
| 2 – 4 awr | **51** | **21** |
| 4 – 8 awr | **10** | **4** |
| Arall | **8** | **3** |
| - Mae'n dibynnu ar y rheswm dros ymweld<br>- Ambell waith y dydd / ychydig o oriau<br>- Yn amlach ar y penwythnos | | |

## Gwella'r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn

| **Pa ran o ganol tref Prestatyn ydych chi'n ymweld â hi?** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran (%) yr Ymatebwyr** |
| Dim ond y Stryd Fawr | **4** | **2** |
| Dim ond Parc Siopa Prestatyn | **25** | **10** |
| Y Stryd Fawr a'r Parc Siopa | **213** | **87** |
| Arall | **2** | **1** |
| - Yr holl gyfleusterau<br>- Y parc siopa'n bennaf ond hefyd y Stryd Fawr unwaith yr wythnos | | |

| **Dewiswch y tri (3) o bethau rydych chi'n eu gwneud amlaf wrth ymweld â chanol tref Prestatyn** | |
|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** |
| Prynu nwyddau/gwasanaethau hanfodol fel bwyd neu gyflenwadau meddygol | **228** |
| Mynd am bryd o fwyd neu gymdeithasu | **177** |
| Prynu nwyddau/gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol fel dillad, eitemau ar gyfer hobi/diddordeb | **166** |
| Treulio amser gyda ffrindiau neu deulu | **75** |
| Treulio amser yn yr awyr agored | **57** |
| Mynd i'r gwaith (fel mewn siop, bwyty neu gaffi) | **25** |

## Gwella'r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn

| **Os nad ydych chi'n ymweld, neu ddim yn ymweld yn aml, oes unrhyw beth yn eich rhwystro chi rhag ymweld neu dreulio mwy o amser yno?** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran (%) yr Ymatebwyr** |
| Wn i ddim beth sydd o ddiddordeb i mi ar y Stryd Fawr | **6** | **5** |
| Mae'n well gen i fynd i siopa rwy'n gallu parcio'n syth y tu allan iddynt | **26** | **23** |
| Does dim digon o leoedd braf i eistedd ar y Stryd Fawr | **30** | **27** |
| Wn i ddim | **23** | **21** |
| Arall | **26** | **23** |

Ymysg y rhesymau eraill pam nad yw cyfranogwyr yn ymweld â'r Stryd Fawr roedd:

- Dim digon o amrywiaeth
- Gormod o draffig
- Dim unlle i eistedd a mwynhau'r olygfa
- Dim toiledau ar ben uchaf y Stryd Fawr
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Siopau'n agor a chau ar adegau afreolaidd
- Cyfyngiadau parcio
- Amgylchedd gwael

## Gwella’r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn

| **Sut ydych chi’n teithio i Brestatyn fel arfer/gan amlaf?** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran (%) yr Ymatebwyr** |
| Rwy’n gyrru i Barc Siopa Prestatyn fel arfer | **135** | **56** |
| Rwy’n gyrru a pharcio’n rhywle arall yn y dref fel arfer | **24** | **10** |
| Rwy’n dod i Brestatyn ar y bws neu’r trên fel arfer | **3** | **1** |
| Rwy’n cerdded i Brestatyn fel arfer, yn dod ar feic neu’n defnyddio dull arall o deithio llesol | **79** | **33** |

| **Os ydych chi’n dod i Brestatyn ar gefn beic, a hoffech chi gael lôn feics ar y Stryd Fawr?** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran (%) yr Ymatebwyr** |
| Hoffwn | **22** | **13** |
| Na hoffwn | **118** | **70** |
| Wn i ddim | **28** | **17** |

| **Os ydych chi’n dod i Brestatyn mewn car, ydych chi’n defnyddio meysydd parcio’r Cyngor yng nghanol y dref?** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran (%) yr Ymatebwyr** |
| Ydw | **45** | **20** |
| Nac ydw, rwy’n parcio ym Mharc Siopa Prestatyn | **112** | **50** |
| Nac ydw, rwy’n parcio ar y stryd | **11** | **5** |
| Rwy’n defnyddio’r maes parcio ac yn parcio ar y stryd | **58** | **26** |

## Gwella’r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn

| **Os ydych chi’n defnyddio meysydd parcio’r Cyngor, pa un ydych chi’n ei ddefnyddio amlaf?** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran (%) yr Ymatebwyr** |
| Rhodfa Rhedyn | **40** | **20** |
| Rhodfa Brenin | **17** | **8** |
| Stryd Fawr Isaf | **11** | **5** |
| Ffordd Llys Nant | **45** | **21** |
| Gorsaf Reilffordd Prestatyn | **4** | **2** |
| Nid wyf yn defnyddio meysydd parcio’r Cyngor | **93** | **44** |

| **Os nad ydych chi’n defnyddio meysydd parcio’r Cyngor ym Mhrestatyn, beth sy’n eich atal rhag gwneud?** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran (%) yr Ymatebwyr** |
| Rwy’n cael parcio am ddim ym Mharc Siopa Prestatyn | **120** | **62** |
| Nid ydynt yn ddigon agos i’r siopau rwy’n mynd iddynt | **4** | **2** |
| Maent yn rhy ddrud | **35** | **18** |
| Nid ydynt yn hygyrch i mi | **6** | **3** |
| Ni allaf ddod o hyd i le parcio bob tro ym meysydd parcio’r Cyngor | **10** | **5** |
| Arall | **19** | **10** |

Ymysg y rhesymau eraill pam nad yw cyfranogwyr yn defnyddio meysydd parcio’r Cyngor ym Mhrestatyn roedd:

- Byw’n ddigon agos i gerdded i ganol y dref
- Mae’r peiriannau talu ac arddangos wedi torri o hyd
- Taliadau am barcio i’r anabl
- Gormod o draffig ac felly’n osgoi’r ardal

## Gwella’r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn

Casglwyd data hefyd i’n helpu i ddeall beth hoffai’r cyfranogwyr inni ganolbwyntio arno wrth wella’r parth cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn, ac a fyddai’r gwelliannau’n eu hannog i ymweld â chanol y dref yn amlach.

**Dewiswch y tri (3) o bethau y dylem ganolbwyntio arnynt fwyaf yng nghanol tref Prestatyn, yn eich barn chi**

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Ychwanegu celfi stryd i bobl eistedd arnynt, raciau beics a biniau sbwriel | **176** |
| Plannu coed, llwyni a blodau | **164** |
| Gwella’r pafin dan draed | **129** |
| Arwyddion ac arwyddbyst i ddangos i bobl ble i fynd | **88** |
| Lledu’r llwybrau troed/palmentydd | **81** |
| Gwella’r goleuadau stryd | **54** |

**Os byddwn ni’n gwneud gwelliannau, a fyddech chi’n fwy neu’n llai tebygol o ymweld â chanol tref Prestatyn?**

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr | Canran (%) yr Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Mwy tebygol | **148** | **62** |
| Llai tebygol | **23** | **10** |
| Wn i ddim | **69** | **29** |

**Gwella'r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn**
**Data ansoddol**

Ceir rhestr isod o'r amrywiaeth o sylwadau a gafwyd gan gyfranogwyr a'u hamlder, sy'n ein helpu i ddeall beth hoffent i'r cynllun ei wella. Rhaid pwysleisio nad yw'n bosib i'r prosiect hwn gyflawni pob un o'r gwelliannau a awgrymwyd, ond fe'u cydnabuwyd i gyd ac fe'u rhennir â phartneriaid mewnol ac allanol.

**A hoffech chi wneud unrhyw sylwadau i gloi?**

| **Sylw** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Gwella'r amrywiaeth o siopau ar y Stryd Fawr / gormod o siopau wedi cau | **22** |
| Mae angen mwy o gamerâu teledu cylch cyfyng a phlismyn | **20** |
| Troi'r Stryd Fawr yn barth cerddwyr, yn enwedig pen uchaf y stryd | **18** |
| Gwella'r tirlunio / mwy o goed / coed wedi'u goleuo | **18** |
| Gwella llif y traffig sy'n troi i'r Stryd Fawr | **16** |
| Dod â'r farchnad yn ôl i'r Stryd Fawr / cynnal digwyddiadau rheolaidd | **16** |
| Mae angen mwy o finiau ailgylchu a gwagio biniau'n amlach | **15** |
| Gostwng Ardrethi Busnes a Rhenti ar y Stryd Fawr | **13** |
| Nid oes angen lôn feics – rhy serth | **12** |
| Cynnig parcio am ddim i bobl leol / mwy o swyddogion gorfodi parcio | **12** |
| Peidiwch â throi'r Stryd Fawr yn barth cerddwyr | **12** |
| Gwell mynediad a lleoedd parcio i bobl anabl | **11** |
| Gwell arwyddion a phaneli dehongli | **11** |
| Gwella'r pafin ac wyneb y ffordd | **9** |
| Pryderu ynglŷn ag effaith y prosiect ar Brestatyn – o gymharu â'r Rhyl | **7** |
| Mwy o leoedd i eistedd y tu allan i fariau a bwytai | **7** |
| Lledu'r palmentydd | **4** |
| Gwella'r promenâd a glan y môr | **4** |
| Gwneud y llwybr o'r parc siopa i'r Stryd Fawr yn fwy deniadol | **4** |
| Toiledau hygyrch ac agored | **4** |
| Canolfan Groeso ar y Stryd Fawr | **3** |
| Mwy o leoedd i barcio beics | **2** |
| Gwella'r hen ganolfan siopa | **2** |

## Gwella’r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn

Ceir rhestr isod o’r amrywiaeth o sylwadau a gafwyd gan y bobl a fu’n ymweld â’r safle, sy’n ein helpu i ddeall beth hoffent i’r cynllun ei wella.

| **Sylwadau** |
|---|
| **Cysylltiadau â Pharc Siopa Prestatyn:** |
| Mae llwybrau i’r parc siopa’n flaenoriaeth – palmentydd, goleuadau, murluniau, adlewyrchu cynllun lliwiau’r Caffi yn y tu ôl |
| **Diogelwch:** |
| Gwella’r goleuadau ar Priory Lane ar ben uchaf y Stryd Fawr |
| Mwy o blismyn |
| **Traffig, Parcio a Cherddwyr:** |
| Llif y Traffig – mae’r system bresennol ym mhen isaf y Stryd Fawr yn ddryslyd ac wedi achosi problemau mawr ar y Stryd Fawr ers tro, dylid gwrthdroi’r system unffordd |
| Ystyried troi rhannau’r ffordd yn barthau cerddwyr |
| Gwella’r llwybrau gwael i gerddwyr i groesi’r gylchfan yn y pen isaf i fynd i’r orsaf reilffordd |
| Cael gwared â’r palmant sy’n ymestyn i ganol y ffordd |
| Ychwanegu mannau llwytho / mannau penodol i fysus ollwng teithwyr |
| Caniatáu parcio ar un ochr o’r Stryd Fawr yn unig |
| Mannau parcio penodol i ddeiliaid bathodynnau glas ar ben uchaf y Stryd Fawr / mwy o leoedd i bobl anabl barcio am hyd at 3 awr, a lledu’r lleoedd parcio |
| Gwahardd parcio ar y stryd y tu allan i’r eglwys yn unig |
| Symud y cwteri draw o’r cyrbiau isel |
| Mae’n eithriadol o beryglus i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a sgwteri gael mynediad i feysydd parcio Rhodfa Brenin a Rhodfa Rhedyn |
| Mae angen mannau pasio i gadeiriau olwyn a sgwteri symudedd yng nghanol y Stryd Fawr a’r pen uchaf |
| Parcio am ddim fel sydd yn y parc siopa, a hynny hyd at 3 awr |
| Lleoedd i barcio beics |
| Cymorth i bobl hŷn a phobl â phroblemau symudedd gyrraedd pen uchaf y Stryd Fawr |
| Peidiwch â chael gwared ag unrhyw leoedd parcio ar y stryd, mae pobl leol yn parcio ar y Stryd Fawr o 5pm ymlaen |

## Gwella’r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn

| |
|---|
| **Palmentydd:** |
| Pafin gwael mewn mannau ar ben isaf y Stryd Fawr – mae angen ei wastatáu hefyd |
| Culhau’r palmentydd yn y canol |
| Mae angen cyrbiau isel ym mhen uchaf a chanol y dref i bobl fedru croesi â sgwteri symudedd, cadeiriau olwyn, coetsis |
| **Tirlunio:** |
| Waliau byw, planhigion lluosflwydd i leihau gwaith cynnal a chadw, coed wedi’u goleuo nad ydynt mewn bocsys, bocsys planhigion graenus ar y wal yn y canol |
| Gwneud yr ardal werdd yn agored a chael gwared â’r grisiau |
| Polion ar gyfer baneri a baneri pwrpasol ar ben uchaf y Stryd Fawr |
| Ardal i berfformwyr stryd – o bosib yn yr hen ganolfan siopa |
| Meinciau / seddi y tu allan i’r eglwys |
| Cerflun yn yr hen ganolfan siopa |
| Ciosg teleffon coch addurniadol – blodau/banc bwyd |
| Dylid adolygu nifer y biniau a’u lleoliad |
| Ardal bwrpasol i gynnal digwyddiadau; hynny yw, marchnadoedd (tymhorol ac wythnosol) |
| Gwaith celf ar y llawr i blant |
| Mae angen cynnal a chadw’r Stryd Fawr yn well; hynny yw, glanhau’r stryd |
| Gosod pigynnau ar bolion lampiau a blaenau siopau i atal adar rhag clwydo |
| **Arwyddion a Phaneli Dehongli:** |
| Twtio’r arwyddion ar y Stryd Fawr a symud yr arwyddbyst |
| Gwella’r arwyddion / byrddau gwybodaeth, gan gynnwys rhai rhyngweithiol, tynnu sylw at Lwybr Clawdd Offa a defnyddio ffenestri siopau gwag |
| Seddi/mannau bwyta yn yr awyr agored – byrddau a chadeiriau bistro - creu diwylliant caffis |
| Mae byrddau A, seddi ac arwyddbyst oll yn creu rhwystrau ar y palmentydd |
| Bwâu mawr ag arwyddion wrth fynedfa’r llwybr o’r parc siopa a baneri i gyfeirio cerddwyr at y Stryd Fawr |
| Hysbysebu’r Stryd Fawr a’r siopau’n well a chyfeirio pobl o’r parc siopa |

# Y Camau Nesaf

Dymuna'r Cyngor ddiolch i bawb am rannu eu syniadau ynglŷn â Gwella'r Parth Cyhoeddus ar Stryd Fawr Prestatyn. Bydd y rhain yn sail ar gyfer cysyniad cychwynnol o ddyluniad y cynllun a byddwn yn ymgynghori ynghylch hynny hefyd yn ei dro.